

# ADRODDIAD BIO-AMRYIWAETH

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL YSTRAD

CHWEFROR 2020

# Pam bod angen adroddiad?

- I gydymffurfio ag Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Mae dyletswydd A6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag y bod hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny.

# Beth yw bio-amrywiaeth?

- Defnyddir y term bioamrywiaeth i ddisgrifio holl amrywiaeth bywyd ar y Ddaear. Fe'i diffinnir yn nhermau:
  - Genynnau
  - Rhywogaethau ac
  - Ecosystemau.

# Beth yw bio-amrywiaeth?

Mae'n cyfeirio at yr amrywiaeth eang o ecosystemau ac organebau byw:

- Anifeiliaid
- Planhigion,
- Eu cynefinoedd a'u genynnau.

# Beth yw bio-amrywiaeth?

Mae bioamrywiaeth yn hanfodol i weithgarwch ecosystemau sy'n darparu cynhyrchion a gwasanaethau na allwn ni fyw hebddynt. Mae'r isod yn tarddu o fyd natur ac ecosystemau iach:

- ocsigen
- bwyd
- dŵr ffres
- pridd ffrwythlon
- meddyginiaethau
- lloches
- diogelwch rhag stormydd a llifogydd
- hinsawdd sefydlog a hamdden

# Rhai o brif bwyntiau'r gyfraith sy'n amddiffyn rhywogaethau

- Mae lladd, anafu, cymryd, gwerthu neu hysbysebu ar werth yn fwriadol neu'n ddiotal neu brynu anifeiliaid gwylt sydd wedi eu hamddiffyn yn fwriadol yn erbyn y gyfraith;
- Mae aflonyddu yn fwriadol neu'n ddiotal ar anifeiliaid gwylt neu niweidio eu manau magu neu lochesi hefyd yn erbyn y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys aflonyddu sy'n debygol o amharu ar eu gallu i oroesi, cysgu drwy'r gaeaf, mudo, bridio neu atgynhyrchu neu fagu neu ofalu am rai ifanc fel arall.
- Amddiffynnir holl adar gwylt, eu nythod a'u hwyau ac mae cosbau arbennig am anafu rhywogaethau prin penodol.
- Ni cheir hel na gwerthu planhigion gwylt. Mae codi unrhyw blanhigyn gwylt yn anghyfreithlon heb ganiatâd perchennog y tir. Ni ddylid hel, dadwreiddio na gwerthu planhigion a amddiffynnir yn arbennig heb drwydded.
- Mae meddiant unrhyw rywogaeth a amddiffynnir yn erbyn y gyfraith oni ellir dangos ei fod wedi ei gymryd yn gyfreithlon.

# Sut allwn ni helpu?

- 1. Helpwch y gwenyn:** Mae gwenyn yn peillio bron i 90% o rywogaethau planhigion. Rhwch hwb ychwanegol i beillwyr yn eich gardd trwy blannu amrywiaeth o flodau gwyllt a phlanhigion brodorol a fydd yn blodeuo trwy gydol y tymor.
- 2. Diogelwch cynefinoedd naturiol.** Gall camau bach fel cadw at lwybrau cerdded, a pheidio â chamu trwy flodau neu gnydau, helpu i amddiffyn yr hyn s.y'n tyfu yno.
- 3. Ewch am dro!** Gall lleihau eich ôl troed carbon trwy fynd ar y bws neu gerdded helpu i'w amddiffyn.
- 4. Torrwch lawr ar y defnydd o ddŵr.** Gallwch leihau faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio, trwy gael cawod 5 munud neu beidio â rhedeg y dŵr wrth olchi llestri e.e.
- 5. Ail-ddefnyddio ac ail-gylchu.** Mae ailgylchu yn lleihau llygredd trwy leihau ynni, trydan a defnydd dŵr a'r angen am safleoedd tirlenwi.
- 6. Cefnogwch y ffermwyr.** Mae ffermwyr yn chwarae rhan allweddol wrth warchod bioamrywiaeth. Gyda chymorth biotechnoleg a gwyddor planhigion, gall ffermwyr dyfu mwy o fwyd ar yr un faint o dir.
- 7. Prynwch fwydydd lleol pan allwch chi.** Prynwch gyda'ch eich ffermwr lleol mewn marchnad ffermwyr neu chwiliwch am y Tractor Coch ar labelu sy'n cynnwys digoeli safonau lles anifeiliaid, diogelwch bwyd, a'r amgylchedd.

# Yr hyn y'n ni'n ei wneud

- Ymateb i ofynion statudol a chydymffurfio ag Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cyhoeddi Adroddiad ar wefan y Cyngor [llanfihangelystrad-cc.org.uk/gb/](http://llanfihangelystrad-cc.org.uk/gb/)
- Codi ymwybyddiaeth yn lleol trwy osod posteri yn y bocsys gwybodaeth yn Cribyn, Dihewyd, Felinfach a Llanfihangel Ystrad.
- Ymgysylltu ag Adran yr Amgylchedd y Cyngor Sir am wybodaeth ac arweiniad.
- Bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau ac ymateb i unrhyw faterion sydd angen sylw.